

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Rhagfyr 3ydd, 2015 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans; Alwen Evans; Naomi Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith; Elis Gwyn Jones a Gwilym M Thomas.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Dachwedd 5ed, 2015, y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu ar Hydref 22ain, 2015 ac er gwybodaeth y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu ar Dachwedd 19eg, 2015.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Adroddiad Sylwadau y Cynllun Adnau. Derbyniwyd er gwybodaeth.

2. Cefnogaeth Gorfforaethol; Her Gwynedd, rhestr o opsiynau sy'n cael eu hystyried a all fod o ddiddordeb i Gyngorau Cymuned/Tref. Penderfynwyd cysylltu gyda'r swyddog i ofyn faint ydi cost y gwasanaethau canlynol yn y gymuned hon:

Lonydd Glas (y Lonydd beics); Glanhau Strydoedd – biniau stryd a baw cŵn; Llwybrau Cyhoeddus; Canolfannau Croeso'r Cyngor; Amgueddfa Lloyd George; Neuadd Dwyfor, Pwllheli a Thoiledau Cyhoeddus.

6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned:

Cais rhif C15/1163/41/LL – Cais i godi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo; Glan Dwyfor, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

7. Biniau Halen. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth ohebiaeth oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned y Felinheli mai £78- fydd cost ail lenwi bin ac y bydd y biniau i gyd yn llawn ar ddydd y troglwyddiad.

8. Cyngorydd newydd i gynrychioli Ward Llanystumdwy ar y Cyngor. Cytunodd Mrs Sian Angharad Parry, Fferm Trefan, Llanystumdwy fod yn gyngorydd dros Ward Llanystumdwy. Bydd yn arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor. Penderfynwyd derbyn.

9. Gair gan y Cyngorydd Dafydd Williams. Dro yn ôl bu ar gwrs gan Gyngor Gwynedd ar faterion cyfreithiol/gweinyddol a datgan diddordeb/buddiant personol ymhlith pethau eraill ac adroddodd yn ôl i'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth ar faterion cyfyngedig i'r cyhoedd a'r wasg, penderfynwyd fel a ganlyn:

a. mai ychydig iawn o bethau ddylai fod yn eithriedig sef materion yn ymwneud â gwybodaeth bersonol am unigolion.

b. Y dylai unrhyw gais am grant fod ar raglen waith agored ac yn dilyn penderfyniad y Cyngor. Yr un fath yn y cofnodion agored.

Os oes angen fe ellir eithrio aelodau o'r cyhoedd/wasg, os yn bresennol, o'r drafodaeth yn unig cyn dod i benderfyniad os oes rhaid trafod sefyllfa ariannol e e mantolen y mudiad dan sylw.

c. Dylai talu biliau hefyd fod yn agored ond dan yr un penawdau ag sydd yn llyfr cyfrifon y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth ar ddatgan diddordeb/buddiant personol penderfynwyd cadw at y drefn fel ag y mae.

10.Materion yn y gymuned.

Chwilog.

Llanarmon

Llanystumdwy

Rhoslan

Llangybi; Bwrdd Dehongli Ffynnon Cybi. Derbyniwyd er gwybodaeth bod y bwrdd ar ymyl y ffordd ochr Capel Helyg wedi torri a bod Cyngor Gwynedd wedi ei symud oddi yno am resymau iechyd a diogelwch. Nid oes sôn am ei atgyweirio hyd yma a bydd rhaid cadw golwg ar y sefyllfa.

11. Trefniadau cyfarfod Dafydd Elis-Thomas AC ynghylch Gwrthwynebiadau i Geisiadau Cynllunio Cyngor Gwynedd. Trefnwyd y bydd y Cynghorwyr Thomas Prys Jones a Dafydd Williams yn ymuno â chynrychiolaeth o Gyngor Tref Cricieth fore Gwener, Rhagfyr 4ydd am 11am yn Swyddfa Plaid Cymru ym Mhorthmadog i drafod y mater. Derbyniwyd.

12.Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth; llythyr oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn codi ymwybyddiaeth. Derbyniwyd er gwybodaeth.

13. Un Llais Cymru a. Cwrs ar Ddatganoli Gwasanaethau, Caernarfon, nos Iau, Rhagfyr 10fed. Cytunodd y Cadeirydd i fynd ar y cwrs yma.

b.Er gwybodaeth, cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor, Caernarfon,nos Fercher Rhagfyr 16eg. Derbyniwyd.

Y Cyngor yn gaeddig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

*Trwy ganiatad y Cadeirydd

*18. Ymddiswyddiad y Cynghorydd John Williams, un o gynrychiolwyr Ward Rhoslan ar y Cyngor. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dynodi ymddiswyddiad y Cynghorydd ar ôl ugain mlynedd fel cynghorydd a phenderfynwyd anfon llythyr ato yn diolch am ei wasanaeth.

*19. E bost oddi wrth gwmni Lightsource yn dilyn caniatâu'r cais cynllunio am fferm solar yn Nhyddyn Gwyn,Gelli Gron Estate, Llanarmon yn gofyn ydi'r Cyngor am dderbyn y cynnig am fudd ariannol i'r gymuned gan y cwmni iddynt gael anfon y ffurflenni perthnasol i'r Cyngor eu harwyddo. Penderfynwyd derbyn eu cynnig a gofyn am y ffurflenni sydd angen eu harwyddo.

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor bu cyfarfod o gynghorwyr Ward Llanystumdwy i drafod ceisiadau am gyfraniad o Elusen William Ellis.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.